

YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

DYDD Iau, 23 Tachwedd 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

L. Evans, Rheolwr Polisi a Chynnwys

T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod

- 9.00 - 9.24 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 HYDREF 2023

PENDERFYNWYD Ilofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 23 Hydref 2023, gan ei fod yn gywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Nodwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd wedi dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Abergwili (2 le gwag - 1 enwebiad)	Mrs K Edwards
Brynsierfel (1 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 - 2 enwebiad)	Mrs L Beer
Porth Tywyn (2 le gwag - 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Michael Thomas Ms K Richards
Cae'r Felin (2 le gwag - 1 enwebiad)	Mr D Davies
Ffederasiwn Cynwyl Elfed/Llanpumsaint (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs L Cockroft
Gorslas (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs G Lewis
Ffederasiwn Llechyfedach/y Tymbl (3 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 – 3 enwebiad)	Mrs A Price Ms J. Thomas Mrs J Williams
Myrddin (1 lle gwag o 23 Ionawr 2024 – 1 enwebiad)	Ms J Lewis
Nantgaredig (2 le gwag o 23 Ionawr 2024 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Mansel Charles
Pen-bre (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr J H Jones
Pontyberem (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Miss M Ff Thomas
Rhys Prichard (1 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 - 1 enwebiad)	Mrs C Pritchard
Y Fro (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Miss M Phillips-Rees

Ysgol Uwchradd	Penodiadau
Bro Dinefwr (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Arwel Davies
Coedcae (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs K Bowen
Ysgol Emlyn (1 lle gwag o 1 Chwefror 2024 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Hazel Evans

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2022-23

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol ynghylch y Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-23. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gwaith o ddarparu, datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd yn unol â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Chynnwys y byddai Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2022-23 yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2022-23 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD